**Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA**

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

26 Medi 2022

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGU AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI FAWRHYDI:** PEEL 2021/22: EFFEITHIOLRWYDD, EFFEITHLONRWYDD A CHYFREITHLONDEB YR HEDDLU – AROLYGIAD O HEDDLU DE CYMRU

Rwy'n croesawu'r adroddiad arolygu 'Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu (PEEL)' diweddaraf, gan nodi bod Heddlu De Cymru wedi'i gydnabod am y ffordd y mae'n atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn ymateb i'r cyhoedd ac yn ymchwilio i droseddau. Rwy'n nodi hefyd fod yr adroddiad yn pwysleisio'r angen i Heddlu De Cymru wella'r ffordd y mae'n amddiffyn pobl fregus rhag niwed.

Mae arolygiad 2021-22 wedi graddio perfformiad yr heddlu mewn wyth maes plismona. Mae'r adroddiad yn graddio Heddlu De Cymru fel a galyn:

- Yn dda am atal troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Yn dda am ymateb i'r cyhoedd
- Yn dda am ymchwilio i droseddau
- Yn dda am gynllunio'n strategol, rheoli'r sefydliad a sicrhau gwerth am arian.

Pennwyd ei bod yn perfformio'n ddigonol mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd â thegwch a pharch, rheoli troseddwyr ac unigolion dan amheuaeth, yn ogystal â datblygu, cefnogi a diogelu'r gweithlu. Rwy'n cydnabod i'r arolygwyr ganfod fod angen i'r heddlu wella'r ffordd y mae'n diogelu pobl fregus.

Mae'n ddymunol gweld bod yr adroddiad wedi amlygu mai Heddlu De Cymru sydd â'r gyfradd cyhuddo neu wysio uchaf ar gyfer troseddau rhywiol o blith y 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr a'r drydedd gyfradd cyhuddo neu wysio orau ar gyfer troseddau sy'n seiliedig ar dioddefwyr. Wrth reswm, mae'r canfyddiad hwn yn un ardderchog ac yn un y bydd cyhoedd De Cymru yn ei groesawu heb os nac oni bai.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

**Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA**

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Canfu'r adroddiad hefyd fod yr heddlu'n hyrwyddo diwylliant moesegol a bod y staff yn teimlo'n hyderus ac yn cael eu cefnogi pe bai angen iddynt herio neu roi gwybod am ymddygiad amhroffesiynol.

Rwy'n croesawu'r holl argymhellion yn yr adroddiad ac rwyf eisoes yn ymwybodol o'r cynnydd a wneir i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd, gan gynnwys rhai rwyf eisoes wedi'u hystyried fel rhan o'm rôl craffu a goruchwylio fy hun. Er enghraifft, mae'n bleser gennyf nodi bod yr adroddiad yn cyfeirio at y Panel Craffu ar Fideo Camerâu a Wisgir ar y Corff newydd ei sefydlu, a sefydlwyd ar y cyd rhwng fy nhîm innau a thîm Cymunedau, Partneriaethau a Chydlyniant yr heddlu. Rwy'n derbyn bod hwn ar gam cynnar yn ei ddatblygiad, ond mae eisoes yn gweithio'n dda iawn, ac mae cytundeb i ddyrannu Cadeirydd annibynnol i'r grŵp eisoes wedi'i wneud fel rhan o'r ymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw yn y maes hwn. Bydd fy nhîm hefyd yn parhau â'i waith hapsamplu parhaus ar ffurflenni stopio a chwilio wedi'u cwblhau a deunydd fideo camerâu a wisgir ar y corff, a bydd yn parhau i ymgysylltu â'n Grŵp ein hunain ar Atebolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu i oruchwylio'r pwerau plismona hyn.

Rwy'n nodi hefyd fod yr adroddiad yn cyfeirio at yr angen i gofnodi penderfyniadau dioddefwyr yn well mewn perthynas â defnyddio Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys, ac yn wir mewn perthynas â thynnu eu cefnogaeth yn ôl.  Mae hyn yn rhywbeth y mae fy rhaglen graffu fy hun wedi tynnu sylw ato ac wedi gofyn i'r heddlu fynd i'r afael ag ef. Mae fy Mwrdd Craffu ac Atebolrwydd yn ceisio cael diweddariadau ar y maes hwn a bydd yn parhau i wneud hynny yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad.

Rwyf bellach wedi cadarnhau fy rhaglen graffu am y flwyddyn i ddod. Yng ngoleuni'r adroddiad hwn, rwyf wedi cynnwys yr angen i edrych ar y maes Camfanteisio ar Blant a Bregusrwydd yn ein rhaglen ddwfn. Byddaf yn gweithio i wneud yr heddlu yn atebol am welliannau yn y maes hwn ond byddaf hefyd yn parhau i ystyried ble y gall asiantaethau partner helpu yn hyn o beth.

Rwy'n parhau â'm hymrwymiad a'm hangerdd i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched a Thrais Rhywiol, ac rwy'n falch bod yr adroddiad yn cyfeirio at rywfaint o'n gwaith yn y maes hwn. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn nodi'r maes ar gyfer gwella a godwyd yn yr adroddiad mewn perthynas â defnyddio Cyfraith Claire. Byddaf yn mynd ati i oruchwylio'r defnydd o'r pŵer hwn a'r amseroedd aros i'r rhai sy'n arfer eu hawliau dan y ddeddfwriaeth hon.

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

**Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA**

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

Bu diogelu pobl fregus yn brif flaenoriaeth i mi o'r dechrau, fel y'i hadlewyrchwyd yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu. Rwy'n cydnabod bod anghenion unigolion bregus yn gymhleth yn aml iawn, ac ni all yr heddlu fynd i'r afael â nhw ar ei ben ei hun. Mae fy arweinydd dros Ddioddefwyr a Bregusrwydd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr a phartneriaid ym maes plismona ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Mae buddsoddi mewn mentrau fel y Rhaglen Newid Bregusrwydd yn ein galluogi i wella cyfleoedd i ddysgu ac addasu mewn partneriaeth, gan ddylanwadu ar hyfforddiant a dealltwriaeth staff rheng flaen er mwyn iddynt fod yn fwy ystyriol o drawma, ond bydd hyn bob amser yn faes gwaith anodd a heriol.

Mae'r cydberthnasau cryf rydym wedi'u meithrin â phartneriaid dros y blynyddoedd yma yn ne Cymru yn parhau i fod yn allweddol i'n llwyddiant. Rhaid i ni adeiladu ar y cynnydd sylweddol a wnaed gennym hyd yma, achub ar y cyfle a gynigir gan yr adroddiad hwn a manteisio ar yr her i wella ein gallu i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ac atal rhywun rhag camfanteisio'n rhywiol arnynt.

Mae fy Mhrif Gwnstabl Jeremy Vaughan hefyd wedi croesawu'r adroddiad arolygu hwn ac mae'n rhoi'r sylwadau canlynol:

*Rwy'n falch bod Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi wedi cydnabod bod craidd Heddlu De Cymru yn gryf, a'r hyn sy'n bwysig yn hyn o beth, bod gennym gynlluniau ar waith i barhau i wella a datblygu'r sefydliad. Mae'r Arolygiaeth hefyd wedi cydnabod y gwaith da y mae ein staff a'n swyddogion yn ei wneud i gadw pobl yn ddiogel, ymateb i'r rhai y mae ein hangen arnynt fwyaf, ymchwilio'n effeithiol i droseddau a rhoi gwerth am arian i'r cyhoedd. Rydym wedi buddsoddi'n fawr mewn datblygu gweithle cadarnhaol ac mae'r Arolygiaeth wedi cydnabod bod safonau moesegol yn uchel, gydag arweinyddiaeth glir sy'n cefnogi gwella trwy ddysgu.*

*Canfu'r arolygwyr fod angen i ni wella'r ffordd rydym yn diogelu pobl agored i niwed, yn enwedig plant sy'n mynd ar goll ac sy'n wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt. Diogelu'r rhai bregus rhag niwed yw fy mhrif flaenoriaeth, ac rydym wedi buddsoddi yn y maes plismona cymhleth hwn, er mwyn sicrhau bod mwy o swyddogion arbenigol nag erioed yn gweithio i ddiogelu pobl fregus bob dydd. Rydym yn gweithio'n agosach ac yn fwy effeithiol gydag amrywiaeth o asiantaethau partner i nodi arwyddion cam-drin a chamfanteisio rhywiol yn llawer cynharach, fel y gallwn gynnig ymyriadau i gefnogi dioddefwyr a dwyn troseddwyr o flaen eu gwell. Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i ddiogelu plant rhag cael eu cam-drin yn*

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk

**Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA**

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

*rhywiol ac atal camfanteisio rhywiol, nawr ac yn y dyfodol, fel sefydliad ac fel aelod annatod o'r rhwydwaith ehangach o bartneriaid sy'n cadw pobl ifanc yn ddiogel.*

*Rydym wedi ystyried yr adborth a gafwyd gan yr Arolygiaeth ac wedi gwneud cynnydd sylweddol i weithredu ar y meysydd ar gyfer gwella a nodwyd yn yr adroddiad. Rwy'n falch iawn o'n cyflawniadau ac, ar y cyd â'm tîm, yn parhau i fod yn benderfynol o barhau i wella'r gwasanaeth a ddarparwn i gyhoedd De Cymru.*

Braf yw gweld bod canfyddiadau'r asesiad PEEL diweddaraf yn cydnabod gwaith caled a pherfformiad gwych swyddogion a staff Heddlu De Cymru wrth gadw pobl yn ddiogel a gostwng troseddu yn ein cymunedau. Mae angen i ni gyd weithio'n ddiflino i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella yn yr adroddiad.  Rwy'n falch o'r gwaith y mae Heddlu De Cymru yn ei wneud ac o ymroddiad parhaus tîm y Prif Swyddog. Byddaf yn mynd ati i oruchwylio'r gwaith o roi argymhellion yr adroddiad ar waith ac edrychaf ymlaen at weld y gwelliannau parhaus.

**Y Gwir Anrh Alun Michael**
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru**

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w:southwalescommissioner.org.uk